

Menter Siopa'n Lleol - Siopa Penarth

Yn ddiweddar mae Gwyrddio Penarth Greening (GPG) wedi ail-lansio cynllun Siopa Penarth sydd yn annog y trigolion i wneud siopa'n lleol yn un o'u haddunedau Blwyddyn Newydd.

Cafodd y cynllun, sy'n cael ei redeg gan GPG gyda chefnogaeth gan fasnachwyr lleol, y Penarth Times a Chyngor Tref Penarth, ei ail-lansio'n swyddogol yng ngŵyl fwyd y grŵp ym mis Medi wedi cael ei lansio i ddechrau fel *Shop in Penarth* yn 2010.

Yn sgil misoedd cyntaf cadarnhaol i'r cynllun ar ei newydd wedd, mae'r rhai sy'n rhedeg y cynllun wedi annog pobl Penarth i wneud ymdrech yn y flwyddyn newydd i ddefnyddio busnesau lleol annibynnol.

Nod y cynllun yw hyrwyddo'r dref, cefnogi'r economi leol ac adeiladu dyfodol mwy gwyrdd.

Erbyn hyn mae dros 50 o fusnesau wedi ymuno'r â'r cynllun gan gynnwys busnesau adwerthu, busnesau bwyd a diod a'r rheini yn y sector gwasanaethau.

Maent eisoes wedi gwerthu mwy na 1,000 o gardiau Siopa Penarth ac mae'r rheini sy'n rhedeg y cynllun yn dweud fod cyfnod y Nadolig wedi cynnig y cyfle perffaith i siopwyr ddarganfod beth oedd ar gael ym Mhenarth gyda llawer o bobl yn dweud eu bod wedi gwneud y mwyafrif o'u siopa yn yr ardal eleni.

Dywedodd Anthony Slaughter o GPG: "Rydym yn falch iawn o ba mor llwyddiannus yw cynllun Siopa Penarth ar ei newydd wedd ers ei ail-lansio yn yr Ŵyl Fwyd fis Medi diwethaf.

Gyda mwy na mil o'r cardiau newydd eisoes wedi'u gwerthu a mwy na 50 o fusnesau annibynnol lleol wedi ymuno, mae cefnogaeth i'r cynllun yn parhau i dyfu ar gyflymder calonogol.

Roedd y cyfnod siopa Nadolig hefyd yn gyfle delfrydol i lawer o siopwyr ddarganfod pa mor eang mae amrywiaeth y nwyddau sydd ar gael o'n siopau lleol gwych gyda llawer o bobl yn gwneud llawer iawn o'u siopa Nadolig yn lleol.

Wrth i ni symud i mewn i'r Flwyddyn Newydd, byddem yn annog siopwyr i gymryd rhan yn y cynllun yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, gan fanteisio ar y nifer o gynigion da yn siopau Penarth ac ar yr un pryd cefnogi ein heconomi leol a helpu i adeiladu dyfodol gwyrddach."

I gymryd rhan yn y cynllun, gall siopwyr brynu cerdyn Siopa Penarth am oes am £2 gan unrhyw un o'r busnesau sy'n cymryd rhan a restrir ar y wefan.

www.shoppenarth.co.uk.

Mae'r wefan hefyd yn dangos y cynigion a'r gostyngiadau diweddaraf sydd ar gael yn yr adran cynigion.